Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch y Coed**

**Neuadd Eglwys Methodistiaid Cyncoed**
**Westminster Crescent**
**Cyncoed**
**Caerdydd**
**CF23 6SE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch y Coed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch y Coed |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Medi 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac maent yn dechrau meithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau o a chyfleoedd chwarae o ansawdd.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn parchu'r plant yn eu gofal. Maent yn cadw cofnodion da o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae'r staff yn rhoi adnoddau, cyfarpar a dodrefn o'r neilltu ar ddiwedd pob sesiwn. Mae dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd uchel yn darparu cyfleoedd i'r plant chwarae a datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hybu iechyd a llesiant y plant.

Mae angen datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Y Person â Chyfrifoldeb sy'n rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'r rhieni yn canmol y staff a'r gwasanaeth a ddarperir i'w plant a'u teuluoedd.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth eang o weithgareddau. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion, fel addurno bisgedi, yn ogystal â mwynhau chwarae'n rhydd gydag adnoddau o'u dewis. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y staff a mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion i gyfathrebu Gwelsom blentyn yn pwyntio at dylluan ar un o'r arddangosiadau ar y wal ac yn dweud 'Gwdihŵ', a chafodd ei hatgoffa gan aelod o'r staff ei bod wedi helpu i'w haddurno. Fodd bynnag, nid oedd gwaith celf y plant wedi'i arddangos o gwmpas y lleoliad.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni.  Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff, sy'n garedig ac yn addfwyn. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn reolaidd y sesiwn ac yn mwynhau'r drefn honno, sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn tacluso'n frwdfrydig ac yn eistedd ar y mat yn barod ar gyfer amser cylch.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n ddiffwdan ochr yn ochr â'i gilydd a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn dysgu parchu ei gilydd ac adnoddau'r lleoliad, gan ddysgu rhannu a defnyddio cyfarpar yn briodol.

Mae'r plant yn mwynhau'r chwarae a'r dysgu yn fawr iawn. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran ym mhob ystafell. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom fod y plant wrth eu bodd yn chwarae. Er enghraifft, plant yn arbrofi â lliwiau drwy ddefnyddio pipedau i ddiferu lliwiau bwyd ar bapur cegin. Roedd y gweithgaredd hwn yn atgyfnerthu thema'r wythnos, sef lliwiau. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth dda o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn annibynnol o gwmpas y lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gweini eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn dysgu rheoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo heb fawr ddim cymorth gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad, ac yn gymwys i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn dilyn y gweithdrefnau sydd ar waith i hybu lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu trylwyr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran eu rôl amddiffyn plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau'n gyson, ac mae'r rhieni a'r gofalwyr yn llofnodi ac yn dyddio'r cofnodion hyn. Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn monitro damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes er mwyn nodi unrhyw batrymau. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo yn barod ar gyfer amser byrbryd ac maent yn sychu'r byrddau cyn ac ar ôl amser byrbryd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, cynigiwyd byrbryd iach o graceri, ciwcymbr a phuprynnau i'r plant, ynghyd â llaeth neu ddŵr.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant yn eu gofal drwy eu trin nhw a'i gilydd â gofal, parch a charedigrwydd. Clywsom y staff yn atgoffa'r plant am foesau da drwy eu hannog i ddweud '*os gwelwch yn dda*' a '*diolch*'. Mae'r staff yn sicrhau y caiff arferion o ansawdd da eu cynnal drwy gydol pob dydd. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng nghyflawniadau'r plant ac yn ymateb yn frwdfrydig pan fydd plentyn yn cwblhau gweithgaredd yn annibynnol. Er enghraifft, canmolodd aelod o'r staff waith celf un o'r plant yn gyffrous, gan ddweud '*llun hyfryd, da iawn ti'.*

Mae'r staff yn cefnogi'r plant ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â nhw er mwyn eu helpu i chwarae, dysgu a datblygu. Mae system dda ar waith ar gyfer cofnodi ac adnabod cynnydd y plant a'u camau dysgu nesaf. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, gan ystyried mewnbwn y plant a'u diddordebau. Gwneir defnydd da iawn o'r Gymraeg yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn gweithredu o ystafell fawr mewn neuadd eglwys. Mae mynedfa'r lleoliad yn ddiogel ac mae'r drysau'n cael eu cloi er mwyn sicrhau mai dim ond aelodau o'r staff all ganiatáu i bobl ddod i mewn. Mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Cedwir cofrestrau i gofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant a'r staff. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer y safle a'r gweithgareddau a gynhelir. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl.  Mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer yr adeilad a dyfeisiau, ac mae tystysgrifau diogelwch priodol ar gael. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a bod y tystysgrifau yswiriant yn gyfredol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae wedi'i addurno'n dda gyda lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r lleoliad. Mae'r brif ystafell gofal plant yn fawr ac yn olau, gan gynnig gofod mawr a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth chwarae. Mae'r ystafell yn drefnus ac wedi'i gosod mewn modd diddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd a datblygiad y plant, a'u hannog i archwilio. Ceir amrywiaeth dda o adnoddau a llyfrau pwrpasol y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd, gan annog eu hannibyniaeth. Ni all y plant ddefnyddio'r ardal awyr agored ar hyn o bryd gan nad yw'r gwaith datblygu yn yr ardal honno wedi cael ei gwblhau.

Mae'r teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar yn y lleoliad mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac o ansawdd da iawn. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant, er enghraifft byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant yn y lleoliad. Gwelsom hefyd fod y plant wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, ac roeddent yn paratoi ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen yn y lleoliad. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Mae nifer addas o doiledau a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae sebon hylif a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth y plant wrth roi sylw i'w gofal personol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae angen datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Ar adeg yr arolygiad, roedd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthi'n trafod newid i statws cyfreithiol y gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r Person â Chyfrifoldeb presennol yn arweinydd cryf. Mae'n arwain y staff yn dda ac mae ganddi weledigaeth glir o ran sut yr hoffai ddatblygu'r lleoliad ymhellach. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y gwasanaeth er mwyn iddynt allu penderfynu ar sail gwybodaeth a yw'n addas i'w plentyn.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd Unigolyn Cyfrifol yn gysylltiedig â'r gwasanaeth. Gan fod hyn yn ofyniad rheoliadol, mae'n faes i'w wella. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Cynhelir yr holl wiriadau cyn cyflogi perthnasol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae system ar waith i sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol gofynnol. Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei drefnu ar gyfer y staff ymhell cyn bod angen ei adnewyddu er mwyn gwneud yn siŵr bod eu sgiliau a'u gwybodaeth bob amser yn gyfredol. Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn cynnal sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'r staff, sy'n eu galluogi i drafod pryderon, materion diogelu a chyfleoedd hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw'r Person â Chyfrifoldeb wedi cael sesiwn goruchwylio un i un er mwyn trafod ei hanghenion ei hun yn ddiweddar, ac nid yw'r staff wedi cael arfarniadau blynyddol yn ddiweddar. Mae hyn yn faes i'w wella ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr arolygiad, mae'r Person â Chyfrifoldeb wedi dweud wrthym ei bod wedi trefnu dyddiadau ar gyfer cynnal arfarniadau'r staff.

Mae adroddiad manwl ar ansawdd y gofal ar gael, sy'n dathlu cyflawniadau'r lleoliad ac yn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried safbwyntiau'r plant, y staff a'r rhieni.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y Person â Chyfrifoldeb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd ac yn rhannu syniadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal gyda'r plant. Mae'r lleoliad wedi ennyn ymddiriedaeth y rhieni ac wedi sefydlu cysylltiadau cyfathrebu da â nhw. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn hapus gyda’r gwasanaeth a ddarperir i’w teuluoedd. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi adborth y staff ar ddatblygiad eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid oedd unrhyw dystiolaeth o sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ar gyfer y Person â Chyfrifoldeb ers 24 Mawrth 2021 nac unrhyw dystiolaeth o arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff ers 3/10/2019, 8/12/2021, 13/12/2021 a 8/12/2021. Sicrhau y cynhelir sesiynau goruchwylio ar gyfer y Person â Chyfrifoldeb ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff mewn modd amserol, ac y cânt eu cofnodi'n ffurfiol. | Newydd |
| 6 | Nid oedd Unigolyn Cyfrifol yn gysylltiedig â'r gwasanaeth ar adeg yr arolygiad ar 19 a 23 Ionawr 2024. Sicrhau bod Unigolyn Cyfrifol wedi'i gofrestru ag AGC er mwyn gwneud yn siŵr bod rhywun â chyfrifoldeb cyfreithiol am y gwasanaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 – Maeth a lles | Sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fod yn fwy annibynnol yn ystod amser byrbryd. |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau y caiff y gwaith ar yr ardd ei gwblhau fel bod y plant yn gallu defnyddio'r ardal. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff gwaith celf y plant ei arddangos er mwyn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth |

a pherthyn i'r plant.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/03/2024